



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Canllawiau Dychwelyd i Ymarfer ar gyfer Nyrsys, Bydwragedd, SCPHNs, AHPs, ODPs, Radiograffwyr, Gwyddonwyr Biofeddygol a Gwyddonwyr Clinigol

Cytunwyd ar Ddiwygiad Canllawiau (3 ^{ydd} Fersiwn):	
Dyddiad Adolygu:	
Diwygiad (Diweddarwyd gyda manylion AaGIC	Awst 2024
Fersiwn Gwreiddiol wedi'i Gytuno	Awst 2016

Cynnwys

1. Dychwelyd i ymarfer	1
2. Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs), Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaeth (ODPs), Radiograffwyr, Gwyddonwyr Biofeddygol a Gwyddonwyr Clinigol dychwelyd i gofrestr yr HCPC	1
3. Trefniadau Bwrsariaeth Dychwelyd i Ymarfer GIG Cymru ar gyfer AHPs, ODPs, Radiograffwyr, Gwyddonwyr Biofeddygol a Gwyddonwyr Clinigol sy'n dychwelyd i gofrestr yr HCPC	3
Unigolion nad ydynt yn gweithio ym maes gofal iechyd ar hyn o bryd:	3
Unigolion sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd fel gweithiwr cymorth naill ai o fewn y GIG neu Ofal Cymdeithasol yng Nghymru:	3
4. Nyrsys, bydwagedd a Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHNs) yn dychwelyd i gofrestr yr NMC	4
Nyrsio, bydwreigiaeth a SCPHN yn dychwelyd i ymarfer: comisiynu	5
Ffioedd cwrs dychwelyd i ymarfer nyrsio, bydwreigiaeth a SCPHN	5
5. Trefniadau Bwrsariaeth Dychwelyd i Ymarfer GIG Cymru ar gyfer nyrsys, bydwagedd a SCPHNs sy'n dychwelyd i gofrestr yr NMC	6
Unigolion nad ydynt yn gweithio ym maes gofal iechyd ar hyn o bryd:	6
Unigolion sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd fel gweithiwr cymorth naill ai o fewn y GIG neu Ofal Cymdeithasol yng Nghymru:	6
6. Cymorth gyda chostau gofal plant	6

1. Dychwelyd i ymarfer

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn gyfrifol am gomisiynu addysg a hyfforddiant i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru. Y cwrs dychwelyd i ymarfer ar gyfer nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) a chyllid dychwelyd i ymarfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs), Mae Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaeth (ODPs), Radiograffwyr, Gwyddonwyr Biofeddygol a Gwyddonwyr Clinigol yn dod o fewn y cylch gwaith hwn.

Gan weithredu ar ran Llywodraeth Cymru, mae AaGIC yn comisiynu lleoedd ar raglenni dychwelyd i ymarfer bob blwyddyn ar gyfer nyrsys, bydwagedd a SCPHNs sy'n hanu o Gymru*, ac yn darparu cymorth ariannol i AHP sy'n hanu o Gymru* a gweithwyr proffesiynol ym maes gwyddor gofal iechyd a oedd wedi'u cofrestru gyda'r HCPC yn flaenorol. Bob blwyddyn mae nifer y lleoedd a gomisiynir a'r cymorth ariannol a ddarperir yn cael eu llywio gan flaenoriaethau recriwtio lleol yn seiliedig ar anghenion y gweithlu. Mae'r nodiadau sy'n dilyn yn egluro'r trefniadau manwl ar gyfer ariannu'r hyfforddiant hwn fesul Cymru gyfan. Ar gyfer gweithwyr gwyddor gofal iechyd proffesiynol nad oes angen cofrestriad HCPC arnynt ar gyfer eu rôl, mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb ar Fyrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd i gefnogi dychweliad priodol i ymarfer. Mae AaGIC yn parhau i adolygu ei sefyllfa o ran cofrestrau achrededig PSA.

2. Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs), Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaeth (ODPs), Radiograffwyr, Gwyddonwyr Biofeddygol a Gwyddonwyr Clinigol dychwelyd i gofrestr yr HCPC

Er mwyn cynnal cofrestriad gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), mae'n rhaid i ymarferwyr wneud datganiad proffesiynol bob dwy flynedd i aros yn gofrestredig, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestryddion gadarnhau:

- [Ymarfer parhaus yn y proffesiwn](#) ers y cofrestriad diwethaf; **neu**
- [Heb ymarfer yn y proffesiwn ers cofrestru diwethaf](#) ond wedi bodloni gofynion dychwelyd i ymarfer yr HCPC.

a

- Parhau i fodlon [isafonau hyfedredd](#) yr HCPC ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol yn y proffesiwn
- Heb gael unrhyw [newid yn ymwneud â chymeriad da](#)
- Heb gael unrhyw [newid yn ymwneud ag iechyd](#) a allai effeithio ar y gallu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol;
- Parhau i fodloni safonau'r HCPC ar gyfer [datblygiad proffesiynol parhaus](#)
- Cael trefniadau [indemniad proffesiynol](#) ar waith sy'n darparu yswiriant priodol neu, os nad yw'n ymarfer ar hyn o bryd, deall y gofyniad i gael un ar waith wrth ddychwelyd i ymarfer



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Canllawiau Dychwelyd i Ymarfer ar gyfer Nyrsys, Bydwagedd,
SCPHNs, AHPs a Gweithwyr Gwyddor Gofal Iechyd Proffesiynol
Tudalen 1

*Mae hanu o Gymru yn golygu cyfeiriad parhaol yng Nghymru.

Os yw cofrestriad yr HCPC wedi dod i ben am unrhyw reswm mae'n rhaid gwneud cais i'r HCPC am aildderbyn. Mae'r broses lawn o sut i wneud cais am aildderbyn i'w gweld ar wefan yr HCPC [Ein gofynion os ydych yn dychwelyd i ymarfer | \(HCPC-uk.org\)](https://www.hcpc-uk.org/gofynion-os-ydych-yn-dychwelyd-i-ymarfer)

Gofyniad **lleiaf** yr HCPC ar gyfer dychwelyd i ymarfer i ddiweddaru gwybodaeth a sgiliau yw:

- 0 i 2 flynedd allan o ymarfer – dim gofynion
- 2 i 5 mlynedd allan o ymarfer – 30 diwrnod o ddiweddaru
- 5 mlynedd neu fwy allan o ymarfer – 60 diwrnod o ddiweddaru

Mae HCPC yn cynghori: 1 diwrnod i fod yn gyfwerth â 7 awr

Nid oes cwrs dychwelyd i ymarfer ar gyfer cofrestreion HCPC. Rheolir trefniadau gan Benaethiaid Adrannau o fewn Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau, sy'n cytuno ar weithgareddau diweddaru i fodloni safonau'r HCPC gyda'r sawl sy'n dychwelyd. Rhaid i ddychwelwyr sicrhau lleoliad a chymorth rheoli am gyfnod eu diweddaru. Ni all AaGIC drefnu lleoliadau ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd. Os yw'r lleoliad yn dibynnu ar geisio cyllid ychwanegol, rhaid cael cytundeb AaGIC, cyn dechrau diweddaru gweithgareddau.

Rhaid i hyn fod drwy Reolwr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth. Dylid cael cytundeb drwy e-bostio HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk gyda'r wybodaeth ganlynol:

- Enw'r dychwelwr
- Enw'r Rheolwr
- Sefydliad y byddant wedi'i leoli ynddo drwy gydol eu lleoliad
- Dyddiad dechrau a gorffen disgwylidig y lleoliad
- A yw'r dychwelwr naill ai o'r blaen:
 - Wedi derbyn rhan o, neu'r dyfarniad llawn bwrsariaeth neu
 - Wedi derbyn y dyfarniad bwrsariaeth llawn ond mae eu cofrestriad bellach wedi dod i ben ac nid ydynt bellach ar y gofrestr



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Canllawiau Dychwelyd i Ymarfer ar gyfer Nyrsys, Bydwagedd,
SCPHNs, AHPs a Gweithwyr Gwyddor Gofal Iechyd Proffesiynol
Tudalen 2

3. Trefniadau Bwrsariaeth Dychwelyd i Ymarfer GIG Cymru ar gyfer AHPs, ODPs, Radiograffwyr, Gwyddonwyr Biofeddygol a Gwyddonwyr Clinigol sy'n dychwelyd i gofrestr yr HCPC

Mae dychwelwyr yn gymwys i dderbyn taliad bwrsariaeth o hyd at £1000, y gellir ei ddefnyddio i brynu unrhyw addysg, y cytunwyd arno gyda'u Pennaeth Adran sy'n goruchwyllo. Mae cyllid i'w dalu i'r sawl sy'n dychwelyd gan y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth lle mae'r practis dan oruchwyliaeth yn digwydd.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau godi ad-daliadau/anfonebau er mwyn talu arian i'r sawl sy'n dychwelyd. Gellir anfon y rhain yn uniongyrchol i nwssp_psu_p2p@wales.nhs.uk. Nid yw taliadau bwrsariaeth yn destun didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol oni bai bod y sawl sy'n dychwelyd hefyd yn cael ei gyflogi gan Fwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd y GIG mewn swyddogaeth arall. Dim ond ffioedd cwrs sy'n cael eu hariannu, ni ellir hawlio treuliau ychwanegol.

Gall dychwelwyr y dyfarnwyd y fwrdsariaeth dychwelyd i ymarfer iddynt hefyd wneud cais am gymorth gyda chostau gofal plant, gweler isod.

Unigolion nad ydynt yn gweithio ym maes gofal iechyd ar hyn o bryd:

Yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth cyfradd unffurf heb brawf modd o £500 am bob 30 diwrnod o ddiweddaru sydd ei angen.

i.) Ar gyfer unigolion_2 i 5 mlynedd allan o ymarfer – mae angen 30 diwrnod o ddiweddaru yn gymwys i dderbyn taliad sengl o £500

ii) Ar gyfer unigolion_5 mlynedd neu fwy allan o ymarfer – mae angen 60 diwrnod o ddiweddaru yn gymwys i dderbyn dau daliad o £500

Dylai'r swm hwn gael ei dalu i'r sawl sy'n dychwelyd yn fisol gan ddarparwr lleoliad y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth. Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau godi anfonebau ar gyfer y rhandaliadau bwrsariaeth. Gellir anfon y rhain yn uniongyrchol at gyllid AaGIC yn nwssp_psu_p2p@wales.nhs.uk a dylent nodi enw'r myfyriwr, ei Fwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd priodol a'r swm a dalwyd.

Nid yw taliadau bwrsariaeth yn destun didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol.

Unigolion sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd fel gweithiwr cymorth naill ai o fewn y GIG neu Ofal Cymdeithasol yng Nghymru:

Yn gymwys i dderbyn eu cyflog presennol, pro rata (hyd at yr hyn sy'n cyfateb i Fand 4 Agenda ar gyfer Newid) am gyfnod y rhaglen. Rhaid i fyfyrwyr drafod gyda'u rheolwyr a chael caniatâd eu cyflogwyr cyn gwneud cais am le ar y rhaglen.

Gall myfyrwyr sydd wedi cael lle ar gwrs dychwelyd i ymarfer hefyd wneud cais am gymorth gyda chostau gofal plant, gweler isod.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Canllawiau Dychwelyd i Ymarfer ar gyfer Nyrsys, Bydwragedd,
SCPHNs, AHPs a Gweithwyr Gwyddor Gofal Iechyd Proffesiynol
Tudalen 3

4. Nyrsys, bydwagedd a Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHNs) yn dychwelyd i gofrestr yr NMC

Er mwyn cynnal cofrestriad gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) mae angen i nyrsys, bydwagedd a Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHNs) gwblhau Proses Ailddilysu'r NMC. Ail-ddilysu yw'r broses y mae angen i bob nyrs a bydwraig yn y DU ei dilyn i gynnal eu cofrestriad gyda'r NMC.

Bob tair blynedd er mwyn ailgofrestru/ail-ddilysu yn fyw ar y gofrestr am y tair blynedd nesaf, mae'n rhaid i'r rhai sydd ar y gofrestr ddangos y canlynol:

- 450 o oriau ymarfer, neu 900 os yn adnewyddu dau gofrestriad (er enghraifft fel nyrs a bydwraig)
- 35 awr o DPP gan gynnwys 20 awr o ddysgu cyfranogol
- Pum darn o adborth yn ymwneud ag ymarfer
- Pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig
- Trafodaeth fyfyrion
- Datganiad iechyd a chymeriad
- Trefniant indemniad proffesiynol
- Cadarnhad

Esbonnir y broses ailddilysu yn llawn ar wefan yr NMC [Ailddilysu - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth \(NMC.org.uk\)](https://www.nmc.org.uk). Ni fwriedir i'r rhaglen dychwelyd i ymarfer gael ei defnyddio fel mecanwaith i unigolion gyflawni gofynion ailddilysu.

Os yw cofrestriad yr NMC wedi dod i ben am unrhyw reswm, mae'n rhaid gwneud cais i'r NMC am aildderbyn. Mae'r broses lawn o sut i wneud cais am aildderbyn i'w gweld ar wefan yr NMC [Gwneud cais am aildderbyn - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth \(NMC.org.uk\)](https://www.nmc.org.uk)

Mae'n rhaid i nyrsys a bydwagedd sy'n ceisio aildderbyn i'r gofrestr, sydd wedi ymarfer am lai na 750 awr yn y pum mlynedd flaenorol, neu 450 awr yn y tair blynedd cyn eu cais i gael eu haildderbyn i'r gofrestr, naill ai:

- cwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer a gymeradwyir gan yr NMC yn llwyddiannus (wedi'i feincnodi yn erbyn cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol ymgeiswyr) neu
- pasio prawf cymhwysedd yr NMC i fod yn gymwys i wneud cais am aildderbyn i'r gofrestr.

Rhaid i hyn fod drwy Reolwr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth. Dylid cael cytundeb drwy e-bostio HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk gyda'r wybodaeth ganlynol:

- Enw'r dychwelwr
- Enw'r Rheolwr



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Canllawiau Dychwelyd i Ymarfer ar gyfer Nyrsys, Bydwagedd,
SCPHNs, AHPs a Gweithwyr Gwyddor Gofal Iechyd Proffesiynol
Tudalen 4

- Sefydliad y byddant wedi'i leoli ynddo drwy gydol eu lleoliad
- Dyddiad dechrau a gorffen disgwyledig y lleoliad
- A yw'r dychwelwr naill ai o'r blaen:
 - Wedi derbyn rhan o, neu'r dyfarniad llawn bwrsariaeth neu
 - Wedi derbyn y dyfarniad bwrsariaeth llawn ond mae eu cofrestriad bellach wedi dod i ben ac nid ydynt bellach ar y gofrestr

Nyrsio, bydwreigiaeth a SCPHN yn dychwelyd i ymarfer: comisiynu

Bydd pob darparwr addysg yn cael gwybod am y lleoedd a gomisiynir ar bob cwrs erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Os oes angen lleoedd ychwanegol, rhaid i'r darparwr addysg gael cytundeb gan AaGIC cyn recriwtio i'r lleoedd ychwanegol hyn.

Ffioedd cwrs dychwelyd i ymarfer nyrsio, bydwreigiaeth a SCPHN

Bydd AaGIC yn cefnogi'r rhai sy'n hanu o Gymru* i gael eu haillderbyn i gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylid ceisio cadarnhad ynghylch a yw'r sawl sy'n dychwelyd yn gymwys i gael cyllid gan AaGIC.

Os ydy'r dychwelwr o'r blaen, naill ai:

- Wedi dechrau a/neu gwblhau cwrs dychwelyd i ymarfer

neu

- Wedi cwblhau cwrs dychwelyd i ymarfer yn flaenorol ond mae eu cofrestriad bellach wedi dod i ben, ac nid ydynt bellach ar gofrestr yr NMC.

Yn yr achosion hyn, rhaid i ddarparwyr addysg gysylltu ag AaGIC i gadarnhau a oes gan y sawl sy'n dychwelyd yr hawl i gyllid pellach ar gyfer eu ffioedd a'u bwrsariaeth cyn cynnig lle GIG Cymru i'r myfyriwr. Bydd pob un sy'n dychwelyd yn cael ei asesu'n unigol.

Telir ffioedd cwrs yn uniongyrchol i ddarparwr y cwrs gan AaGIC ar ôl derbyn anfoneb gan y darparwr addysg. Dylai'r anfoneb nodi nifer y myfyrwyr a ddechreuodd y rhaglen, o fewn y nifer a gomisiynwyd y cytunwyd arno, am y ffi y cytunwyd arni.

Mae'n ofynnol i'r Darparwyr Addysg ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel mater o flaenoriaeth ar ôl dechrau'r cwrs:

- Rhestrwch enwau'r rhai sy'n dechrau'r cwrs o dan eu Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth berthnasol, a dyddiad dechrau'r cwrs ac anfonwch hwn at:
ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk

a

- Trefnwch i anfoneb am ffioedd y cwrs gael ei hanfon at Gyllid AaGIC yn:
nwssp_psu_p2p@wales.nhs.uk



Mae hyn er mwyn hwyluso monitro cyllideb cywir, cynllunio ar gyfer y dyfodol ac i sicrhau y gellir ailddyrannu unrhyw leoedd nas defnyddir.

*Mae hanu o Gymru yn golygu cyfeiriad parhaol yng Nghymru.

5. Trefniadau Bwrsariaeth Dychwelyd i Ymarfer GIG Cymru ar gyfer nyrsys, bydwagedd a SCPHNs sy'n dychwelyd i gofrestr yr NMC

Unigolion nad ydynt yn gweithio ym maes gofal iechyd ar hyn o bryd:

Yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth cyfradd unfurf heb brawf modd o £3,000 (tua £500, a delir yn fisol) am gyfnod y rhaglen Dychwelyd i Ymarfer.

Dylai'r Darparwr Addysg dalu'r swm hwn yn fisol i'r sawl sy'n dychwelyd. Mae'n ofynnol i'r Darparwyr Addysg godi anfonebau am y rhandaliadau bwrsari. Gellir anfon y rhain yn uniongyrchol at gyllid AaGIC yn nwssp_psu_p2p@wales.nhs.uk a dylai fanylu ar enw y myfyriwr, eu Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth berthnasol a'r swm a dalwyd.

Nid yw taliadau bwrsariaeth yn destun didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol.

Unigolion sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd fel gweithiwr cymorth naill ai o fewn y GIG neu Ofal Cymdeithasol yng Nghymru:

Yn gymwys i dderbyn eu cyflog presennol, pro rata, (hyd at yr hyn sy'n cyfateb i Fand 4 Agenda ar gyfer Newid) am gyfnod y rhaglen. Rhaid i fyfyrwyr drafod gyda'u rheolwyr a chael caniatâd eu cyflogwyr cyn gwneud cais am le ar y rhaglen.

Mae myfyrwyr sydd wedi cael lle ar gwrs dychwelyd i ymarfer hefyd yn gallu gwneud cais am gymorth gyda chostau gofal plant, gweler isod.

6. Cymorth gyda chostau gofal plant

Mae Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau a Darparwyr Addysg GIG Cymru yn ymdrechu i ddarparu opsiynau hyfforddi hyblyg a rhan-amser sy'n sensitif i amgylchiadau dychwelwyr sy'n rhieni.

Mae dychwelwyr o bob proffesiwn y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yn gallu gwneud cais am gymorth prawf modd gyda chostau gofal plant yr eir iddynt wrth fynychu lleoliadau clinigol a hyfforddiant gloywi. Dim ond ar ôl dangos derbynebau perthnasol gan wasanaethau gofal plant cofrestredig y gwneir taliadau.

Caiff taliadau eu rheoli gan Wasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru. Mae'r lwfans gofal plant yn seiliedig ar brawf modd ac mae'n seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy hyd at uchafswm.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Canllawiau Dychwelyd i Ymarfer ar gyfer Nyrsys, Bydwagedd,
SCPHNs, AHPs a Gweithwyr Gwyddor Gofal Iechyd Proffesiynol
Tudalen 6

Dylid gwneud cais am gymorth gyda chostau gofal plant, ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd ac sydd wedi sicrhau cyllid gan GIG Cymru, yn uniongyrchol drwy e-bostio'r gwasanaeth gwobrau myfyrwyr abm.sas@wales.nhs.uk gyda'r wybodaeth ganlynol:

- Sefydliad maent yn astudio ynddo
- Dyddiad cychwyn y cwrs.
- Cyfeiriad Cartref
- Rhif ffôn cyswllt

Bydd Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr yn rheoli'r broses ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r sawl sy'n dychwelyd. Bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n dychwelyd wneud cais am gostau gofal plant cyn dechrau eu cwrs gan **na ellir hawlio lwfans gofal plant mewn ôl-daliadau.**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen esboniad pellach arnoch, cysylltwch â'ch Arweinydd Rhaglen, neu e-bostiwch ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk neu HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellfa Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Canllawiau Dychwelyd i Ymarfer ar gyfer Nyrsys, Bydwagedd,
SCPHNs, AHPs a Gweithwyr Gwyddor Gofal Iechyd Proffesiynol
Tudalen 7